# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 – Adran F

**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 3 Mai 2000 i'w hateb ar 10 Mai 2000**

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

**Gofyn i'r Prif Ysgrifennydd ynghylch Datblygu Economaidd**

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru**); Pa ran a chwaraeodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y gwaith o lunio fersiwn diwygiedig y Map Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer Cymru. (OAQ5050)

**2. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Pa drafodaethau y mae wedi eu cael â'r sectorau perthnasol o fewn Economi Cymru ar y blaenoriaethau strategol a fydd yn graidd i'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol. (OAQ5027)

**3. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa asesiad y mae wedi'i wneud o'r effaith y caiff y posibilrwydd o gau Rover ar swyddi yng Nghymru. (OAQ5161)

**4. Michael German (Dwyrain De Cymru);** Faint o gynnydd sydd wedi ei wneud o ran sefydlu Uned Werthuso ar gyfer Amcan Un. (OAQ5044)

**5. David Davies (Mynwy);** A wnaiff ddatgan pam nad oedd ardal fwyaf difreintiedig Sir Fynwy, Llanelly Hill, wedi cael ei chynnwys ar y map RSA. (OAQ5019)

**6. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Beth mae wedi ei wneud yn ddiweddar i ddiogelu swyddi gweithgynhyrchu yng Nghymru. (OAQ5038)

**7. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru**); A yw'n bwriadu cyfarfod â Phrif Weithredwr Hyder er mwyn trafod y cynigion arfaethedig i brynu'r cwmni. (OAQ5158)

**8. Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);** Beth sy'n cael ei wneud i gynorthwyo'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio o ganlyniad i gau ffatrïoedd Bairdwear yng Nghymru (OAQ5047)

**9. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau mae'n eu cymryd i sicrhau y bydd yr ymrwymiad i greu swyddi yn yr ardaloedd lle mae eu hangen fwyaf a gynhwysir yn y ddogfen Gwell Cymru yn cael ei wireddu. (OAQ5034)

**10. Jane Davidson (Pontypridd**); Pryd fydd gan awdurdodau lleol yn yr ardal Amcan 1 gynlluniau mewn grym er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr arian newydd. (OAQ5156)

**11. Gareth Jones (Conwy);** A wnaiff gadarnhau'r amserlen ar gyfer cyhoeddi a sefydlu cyfnod ymgynghori ar gyfer y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol ddrafft. (OAQ5030)

**12. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff ddatganiad ynghylch darparu cymorth ariannol ar gyfer BAE ym Mrychdyn. (OAQ5021)

**13. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** Sut mae'n bwriadu gweithredu'r Strategaeth Datblygu Economaidd newydd. (OAQ5031)

**14. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A ydyw wedi cael unrhyw drafodaethau â Chyngor Bwrdeistref Wrecsam ynghylch hepgor Brymbo o'r Map Ardaloedd a Gynorthwyir. (OAQ5023)

**15. Dafydd Wigley (Caernarfon);** A wnaiff roi adroddiad ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y trafodaethau â'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch cyflwyno fersiwn terfynol SPD Amcan 1. (OAQ4986)

**16. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A yw'r cynlluniau i gyllido rhaglenni Amcan 1, 2 a 3 yn barod i'w rhoi ar waith o fewn yr amser angenrheidiol. (OAQ 5167)

**17. Geraint Davies (Rhondda);** Faint o'r 1,500 o gwmnïau a fydd yn derbyn cefnogaeth sylweddol o dan raglen Fusnes Mentrau Bach a Chanolig Cymru a lansiwyd yn ddiweddar sydd wedi eu lleoli yn y Cymoedd. (OAQ5165)

**18. Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa gamau y mae'n eu cymryd i sicrhau bod y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol ddrafft yn cael ei chyhoeddi yn y dyfodol agos fel y nodwyd yn Atodiad 1 dogfen Gwell Cymru. (OAQ4985)

**19. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff wneud datganiad ar y feirniadaeth a wnaed yn ddiweddar o'r awgrym yn y Ddogfen Raglennu Sengl y gallai hyrwyddo hunaniaeth Gymreig fod yn rhwystr i ddatblygu economaidd. (OAQ5041)

**20. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa asesiad sydd wedi cael ei wneud o'r effaith a allai'r cynigion i brynu Hyder PLC gan Nomura a Western Power Distribution ei chael ar swyddi yng Nghymru. (OAQ5042)

**21. Jane Davidson (Pontypridd);** Pa gefnogaeth all ei rhoi i sefydlu rhwydweithiau menter lleol. (OAQ5157)

**22. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** Pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau y bydd cyfnod ymgynghori priodol ar gyfer pobl a sefydliadau drwy Gymru gyfan i ystyried ac ymateb i fersiwn y Llywodraeth y mae ef yn aelod ohoni o'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol ddrafft. (OAQ5032)

**23. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa gynlluniau sydd ganddo i gynorthwyo datblygiad Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd. (OAQ4987)

**24. Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A all wneud datganiad ynghylch grantiau prosiect Trwyn Penarth a'i gwneud yn glir dros ba gyfnod o amser y bydd yr arian a ddatganwyd ar gyfer y prosiect Walkway ar gael. (OAQ4983)

**25. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A yw wedi cael unrhyw drafodaethau pellach â BAE Systems yn dilyn y diddordeb a ddangoswyd yn ddiweddar yn eu ffatri ym Mrychdyn pan gyhoeddwyd yr archebion cyntaf ar gyfer yr awyren jymbo enfawr newydd. (OAQ5022)

**26. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A yw wedi cael trafodaethau'n ddiweddar gyda gweinidogion llywodraeth y DU ynghylch y bygythiadau parhaus i swyddi yng Nghymru a'r swyddi gweithgynhyrchu a gollwyd. (OAQ5037)

**27. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa fesurau a wnaiff eu cymryd i ymdrin â thlodi a diweithdra ar Ynys Môn. (OAQ5046)

**28. Karen Sinclair (De Clwyd);** A all roi sicrwydd ei fod wedi rhoi ei gefnogaeth lwyr i'r apêl gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac ACau Gogledd Cymru i ailosod wardiau Holt, Marchwiail, Rhiwabon, Cefn Mawr a Phlas Madog, ar y Map newydd arfaethedig o Ardaloedd a Gynorthwyir, er mwyn sicrhau bod Stâd Ddiwydiannol Wrecsam yn cael ei chynnwys. (OAQ4984)

**29. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw wedi cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau pellach mewn perthynas â darparu cefnogaeth ariannol i BAE Systems ym Mrychdyn. (OAQ5155)

**30. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatgan beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf yn achos y trafodaethau â'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â chyflwyniad terfynol Dogfen Raglennu Sengl Amcan 1. (OAQ5036)

Gofyn i Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad

**1. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)**: Sut mae'n cynnig sicrhau bod Cymru yn derbyn cyfran o'r £22 biliwn y mae Llywodraeth y DU wedi'i dderbyn trwy werthu trwyddedau ffonau symudol. OAQ5152

**2. Geraint Davies (Rhondda)**: Pa gamau y bydd yn eu cymryd i rwystro unrhyw gynnydd mewn gwahaniaethu hiliol yng Nghymru. OAQ5148

**3. David Melding (Canol De Cymru)**: A wnaiff wneud datganiad ar gynnydd tuag at weithredu Adroddiad Lawrence. OAQ5153

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff wneud datganiad ar gynnydd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. OAQ5004

**5. Jenny Randerson (Canol Caerdydd)**: A oes ganddi unrhyw gynlluniau i gwrdd â chynrychiolwyr Cynulliad Llundain i drafod dyraniad cronfeydd i awdurdodau datganoledig yn y DU. OAQ4992

**6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**: Beth fydd yn ei wneud i sicrhau bod ceiswyr nodded sy'n dod i Gymru yn cael cyfle cyfartal yng Nghymru. OAQ5054

**7. William Graham (Dwyrain De Cymru)**: Pa gamau y mae wedi'u cymryd neu y bydd yn eu cymryd i roi diwedd ar yr arfer o ddiogelwch cyfrineiriau gwael gan ddefnyddwyr system Osiris. OAQ5052

**8. Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: Yn sgil ethol Maer a Chynulliad Llundain, pa gynlluniau sydd ganddi i alw cyfarfod o holl gyrff datganoledig y DU i gytuno ar ddull cyffredin o ddiwygio fformwla Barnett. OAQ4999

**9. Janice Gregory (Ogwr)**: Sut mae am sicrhau bod holl gwmnïau a chontractwyr y Cynulliad yn rhoi sylw teilwng i arferion da o ran cyfle cyfartal. OAQ4979

**10. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**: Pa drafodaethau y mae wedi'u cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yngln ag adolygu fformwla Barnett. OAQ5055

**11. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)**: Pa sylwadau a wnaed fel rhan o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant mewn perthynas â chyllideb y Cynulliad yn 2002-03. OAQ5014

**12. David Davies (Mynwy)**: A yw wedi cynnal trafodaethau â chydweithwyr yn San Steffan i

weld a fydd yr arian a ddaeth i law yn ddiweddar trwy werthu trwyddedau ffonau symudol yn effeithio ar gyllideb Cymru. OAQ5059

**13. Dafydd Wigley (Caernarfon)**: A wnaiff roi adroddiad ar gynnydd tuag at gytuno ar setliad ariannol newydd i Gymru. OAQ4978

**14. Brian Hancock (Islwyn)**: Sut mae'n bwriadu gweithredu'r gwelliant i gynnig NDM268 (Gwell Cymru) sy'n ymwneud â darparu arian digonol gan lywodraeth y DU. OAQ5008

**15. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**: Pa sylwadau a wnaed ar ran Cymru fel rhan o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant am fwy o gyllid ar gyfer cyllidebau Cymru yn y dyfodol. OAQ5012

**16. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff wneud datganiad ar sut y mae'n bwriadu ariannu'r ymrwymiadau newydd a wnaed o ganlyniad i gynnig NDM286 (Gwell Cymru), fel y'i cymeradwywyd ar 5 Ebrill 2000. OAQ5013

**17. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn)**: Sut y mae'n bwriadu gweithredu'r diwygiad i gynnig NDM268 (Gwell Cymru) sy'n ymwneud â'r rhaglen ar ddata cadarn. OAQ5003

**18. Gareth Jones (Conwy)**: Pa fesurau y bydd yn eu cymryd i leihau'r Bwlch Cyflogau yng Nghymru rhwng dynion a menywod. OAQ5056

**19. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Beth fydd cost derfynol gosod system cyflyru awyr yn Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol. OAQ5151

**20. Mick Bates (Sir Drefaldwyn)**: Pa gynlluniau sydd ganddi i gyfarfod â chynrychiolwyr Cynulliad Llundain i drafod ariannu awdurdodau datganoledig yn y DU. OAQ4991

**21. Phil Williams (Dwyrain De Cymru)**: Pa sylwadau a wnaed ar ran Cymru, fel rhan o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, er mwyn helpu i sicrhau llwyddiant prosiectau a ariennir gan yr UE. OAQ5010

**22. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Faint o'r £22 biliwn y mae Llywodraeth y DU wedi'i gael yn sgil gwerthu trwyddedau ffonau symudol a ddaw i Gymru. OAQ5150

**23. David Melding (Canol De Cymru)**: A yw'n bwriadu cyfarfod â Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i drafod gweithredu Adroddiad Lawrence. OAQ5154

**24. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**: Faint o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sydd gan y Cynulliad a faint o'r rhain y gellir eu diddymu heb orfod troi at ddeddfwriaeth

sylfaenol neu’r Cyfrin Gyngor. OAQ5057

**25. Janice Gregory (Ogwr)**: A yw’n ymwybodol o’r costau a ddaeth i ran Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd wrth gynhyrchu eu llyfr o dan y teitl "Renaissance". OAQ4980

**26. Peter Rogers (Gogledd Cymru)**: O ystyried yr holl geisiadau a gaiff i wneud sylwadau yngln ag adolygu fformwla Barnett, a yw’n bwriadu cael trafodaethau gyda’i chydweithwyr yn Nhrysorlys Ei Mawrhydi. OAQ5149

**27. Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: Pa gynlluniau sydd ganddi i gyfarfod â Maer newydd Llundain i drafod ymagwedd gyffredin at ddiwygio Fformwla Barnett. OAQ5000

**28. Janet Davies (Gorllewin De Cymru)**: A all gyflwyno adroddiad ar gyflwr presennol Dangosyddion Gwariant Safonol. OAQ5006

**29. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff wneud datganiad ar y negodiadau diweddaraf gyda’r Trysorlys i ddod o hyd i Arian Cyfatebol ar gyfer rhaglen Amcan 1. OAQ5062

**30. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn)**: Sut y mae'n bwriadu gweithredu’r diwygiad i gynnig NDM286 (Gwell Llywodraeth) yn ymwneud â phenderfyniadau cyflogaeth uwch-gynhadledd Lisbon. OAQ5002